

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, Y 6ED O FEHEFIN 2022 AM 19.00 O'R GLOCH**

Presennol:	Cadeirydd:	H Hughes C Bainbridge R Dalton M Griffiths A Hughes A J Morris D Pryce Jones N Salmon A Thomas (trwy Zoom) H Williams
Yn bresennol:	Cynghorydd Sir: Clerc:	H Hughes M Walker 2 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU

25. Y Cynghorydd G B Jones.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

26. Dim.

DATGAN BUDDIANNAU

27. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

28. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar y 9fed o Fai. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Pryce Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

29. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar y 9fed o Fai. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

30. Gofynnodd y Cynghorydd Williams a allai'r Cyngor wahodd Andy Rowland o Ecodyfi i annerch y Cyngor ar faterion megis cynlluniau ynni lleol.

GOHEBIAETH

31. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni, megis cylchlythyr Hwb Cymunedol y Borth a chyhoeddiad arbennig i ddathlu'r caffî cymunedol, diffibrilwyr i'w defnyddio gan aelodau'r gymuned, Trefi Smart Cymru, hysbysiad i gadarnhau y bydd y maes chwarae cael ei arolygu ym mis Mehefin, holiadur ar wydnwch cymunedol, newyddion Ecodyfi a manylion swydd wag, cylchlythyr Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru a chyfrifon Cymdeithas Chwaraeon a Chaeau Chwarae'r Borth.

32. Maes Chwarae. Mae Rob Griffiths wedi cael bollt newydd ar gyfer y siglen i oedolion/plant.

33. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae CNC yn bwriadu cynnal a chadw cyrsiau dŵr yn lleol o fewn Ardal Draenio Mewnol y Borth rhwng dechrau mis Medi a diwedd mis Mawrth 2023. Ymatebodd y Cynghorydd Morris ar ran y Cyngor a chadarnhaodd nad oedd wedi cael cydnabyddiaeth nac ymateb eto. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â CNC i ddweud bod y Cyngor wedi'i siomi â hyn.

34. HSBC. Diweddariadau i'w Telerau ac Amodau Bancio i Fusnesau.

CYFRIFON

35. Balans y Cyfrifon ar y 13eg o Fai 2022

Nationwide	25312.45
Cyfrif Banc Elusennol	13486.68
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd	0.41
Cyfrif Adnau	3829.47

36. Incwm

Dim.

37. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol: Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Ffioedd banc y Cyfrif Elusennol	11.00
H Hughes – Adnewyddu'r drwydded Zoom	113.91
H Hughes – Padiâu'r Diffibriliwr	47.94
M Walker – Cyflog	530.85

38. Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2022. Dosbarthwyd copïau o'r Datganiad Blynyddol i'r Cyngorwyr yn y cyfarfod. Cyflwynodd y Clerc adroddiad cynhwysfawr ar y cyfrifon a'r Datganiad Blynyddol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Datganiad Blynyddol wedi'i gyflwyno i'r Cyngor a phenderfynodd gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2021/22. Mae'r Cyngor yn nodi cynnwys Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol a gynhaliwyd ac a ardystiwyd gan Mrs Hilary Matthews (Archwilydd Mewnol), a phenderfynwyd cymeradwyo Rhannau 1 a 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi'r Datganiad ar ran y Cyngor. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Llofnododd y Cadeirydd y Datganiad Blynyddol.

Cynhaliodd Mrs Hilary Matthews yr Archwiliad Mewnol ar yr 20ain o Fai, ac fe'i llofnododd. Bydd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio rhwng y 4ydd a'r 29ain o Orffennaf yng nghartref y Clerc rhwng 11am ac 1pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hefyd rhwng 6pm a 7pm ar y 4ydd o Orffennaf yn y Neuadd Gymunedol.

CYNLLUNIO

39. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

Dim.

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

40. Mae'r Cynghorydd Hughes wedi cael ateb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r materion a'r pryderon a godwyd. Rhoddodd ddiweddariad byr ar gynnwys y llythyr ac, yn dilyn hynny, dywedodd iddo drefnu cyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion. Awgrymodd y Cynghorydd Andrea Hughes y dylid gwahodd cynrychiolydd o Grŵp Monitro Arfordir Cymru i un o gyfarfodydd Cyngor Cymuned y Borth. Cynigiodd wneud ymholiadau.

ARWYDDION AR Y PROMENÂD

41. Mae'r mater yn parhau.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

42. Soniodd y Cynghorydd Hughes am gynnwys y llythyr diweddaraf oddi wrth Rhodri Llwyd o Gyngor Sir Ceredigion. Cynigiodd y Cynghorydd Griffiths fod y Clerc yn ysgrifennu at Huw Bates o Morris a Bates i ofyn ar ba sail y mae'n tybio bod y tir yn eiddo i Gyngor Sir Ceredigion. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

DATHLU RAY QUANT MBE

43. Ar ôl trafodaeth fer, cytunwyd y dylai'r Cyngor gysylltu â Chymdeithas Chwaraeon a Chaeau Chwarae'r Borth i ofyn a fyddai'n dderbyniol newid enw'r Neuadd Gymunedol er mwyn cynnwys enw Ray Quant, a hynny i gydnabod ei wasanaeth i Ward y Borth fel Cynghorydd Sir am 20 mlynedd. Cynigiodd y Cynghorydd Bainbridge y byddai'r Cynghorydd Bainbridge a Griffiths yn cysylltu ag aelodau Cymdeithas Chwaraeon a Chaeau Chwarae'r Borth ar ran y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Williams.

LLEFYDD PARCIO I FEICIAU YN Y BORTH

44. Mae'r Cyngor wedi cael e-bost oddi wrth un o drigolion y Borth ynglŷn â'r diffyg llefydd parcio i feiciau yn y Borth. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Salmon i ymchwilio i ddatrysiaid posib ac i wybod pa ardaloedd fyddai'n elwa fwyaf ar gael llefydd parcio i feiciau. Soniodd y Cynghorydd Williams fod y Ganolfan Gymunedol wedi cael beic trydan.

MATERION Y CADEIRYDD

45. Awgrymodd y Cynghorydd Hughes y dylai'r Cyngor sefydlu gwefan Cyngor Cymuned y Borth. Cytunodd i wneud ymholiadau a bydd y mater yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod fis nesaf.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

46. Bydd y rhestr o gyfrifoldebau'r cyngorwyr yn cael ei diweddarau yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Cyfeiriodd y Cynghorydd Salmon at e-bost diweddar a anfonwyd at gyngorwyr ynglŷn â pheccynnau gardd am ddim oddi wrth Lefydd Lleol ar gyfer Natur. Cynigiwyd bod y Cynghorydd Salmon yn gwneud cais am becyn. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Dywedodd y Cynghorydd Bainbridge wrth yr Aelodau fod grŵp o blant o Ysgol Graig yr Wylfa wedi anfon llythyrau ati yn rhan o brosiect yn yr ysgol i gwyno am y sbwriel sylweddol yn y parc cychod ac yn y maes chwarae. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Clerc anfon llythyr at y disgyblion a fu'n rhan o'r prosiect i gydnabod iddi gael eu llythyron. Codwyd £150 yn ystod penwythnos y Jiwbilí a rhoddwyd yr arian hwn i'r ysgol. Bydd y Cynghorydd Andrea Hughes yn ymchwilio i gynllun hyfforddi Ymatebwyr Cyntaf yn sgil digwyddiad diweddar pan oedd ambiwlans yn hwyr yn cyrraedd. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y byddai'n ysgrifennu at y nyrs, nad oedd ar ddyletswydd y diwrnod hwnnw ac a gamodd i'r adwy i gynorthwyo'r claf, i ddiolch iddi ar ran y Cyngor. Bydd y carnifal yn cael ei gynnal eleni, a bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal cyn yr orymdaith eu hun ar ddiwrnod y carnifal.

Gofynnodd y Cynghorydd Griffiths a oedd unrhyw ffordd y gallai'r Cyngor atal carafanau rhag gyrru i fyny ac i lawr y brif stryd.

Cododd y Cynghorydd Williams bryderon ynglŷn â'r palmant cul wrth droed Ffordd Clarach ar y llwybr cerdded diogel i'r ysgol, a gofynnodd ai cerddwyr ynteu ceir oedd yn cael blaenoriaeth. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y byddai'n holi Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion.

Dywedodd y Cynghorydd Morris wrth yr Aelodau fod yr holl fyrddau storm bellach wedi'u codi o'r mynedfeydd i'r traeth.

Soniodd y Cynghorydd Dalton fod cŵn i'w gweld ar y traeth er eu bod wedi'u gwahardd ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'n honni nad yw'r binau stryd yn addas i'w diben a bod gwylanod yn gallu mynd i mewn iddynt. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi cael ymholiad ynglŷn ag a yw'r grwynau sy'n cael eu storio ar safle'r hen domen sbwriel ar gael i'r cyhoedd. Yn anffodus, cafwyd cadarnhad bod y grwynau yn eiddo i Gyngor Sir Ceredigion ac nid Cyngor Cymuned y Borth. Soniwyd am yrru gwrthgymdeithasol i fyny ac i lawr y pentref. Hefyd, cyfeiriodd y Cynghorydd Griffiths at gerbyd â'r gair "Ambulance" ar y fisor haul, ac mae'n amlwg nad ambiwlans yw'r cerbyd hwn.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

47. Aeth y Cyngorydd Hughes ati i sôn am ei swydd newydd fel Cyngorydd Sir. Roedd yn falch o fod wedi cael cyfle i oleuo ffagl RNLI y Borth yn ddiweddar i nodi Jiwbilîr Frenhines.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA

48. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 21.58pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 4ydd o Orffennaf 2022 fydd Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Promenâd, y Wal gyferbyn â Siop Premier, Dathliad gogyfer â Ray Quant MBE a Gwefan y Cyngor. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cyngorydd Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.